

**Nodiadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Pen-y-bont ar Ogwr
23 Ionawr 2017
yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr**

Presennol	Sefydliad
Alyson Francis	Llywodraeth Cymru
Andrew Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Cllr Hywel Williams	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Claire Fauvel	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Darren Mephram	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Huw Jakeway	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Katy Chamberlain	Fforwm Busnes Pen y Bont ar Ogwr
Kay Harries	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Mark Brace	De Cymru Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Martin Jones	Heddlu De Cymru
Martyn Evans	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rachael Edwards	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Sian Harrop-Griffiths	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Simon Pirotte	Coleg Penybont
Stephen Cook	Cymoedd I'r Arfordir
Stuart Parfitt	Heddlu De Cymru
Vaughan Jenkins	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Hefyd yn bresennol	
Nick Miller	Miller
Adam Greenwood	Miller
Judith Jones	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Martin Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Yuan Shen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Gaynor Griffiths	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
Ymddiheuriadau	
Cllr Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr
David Bebb	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Heidi Bennett	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol sir Penybont
Judith Tomlinson	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Peter Vaughan	Heddlu De Cymru
Richard Hughes	AWEN

Eitem agenda	Sylwadau	Cam gweithredu
1	Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau	
1.1	Croesawodd DM bawb i'r cyfarfod a gofynnodd am gyflwyniadau cyflym. Cofnodwyd ymddiheuriadau fel yr uchod.	
2	Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd a Materion yn Codi	
2.1	Cymeradwywyd nodiadau'r cyfarfod blaenorol, dim materion yn codi.	
3	Asesiad Drafft o Les – cyflwyniad gan Miller	
3.1	Gwahoddodd NM aelodau i ofyn cwestiynau drwy gydol y cyflwyniad.	
3.2	Rhoddodd y cyflwyniad y cefndir, y fethodoleg a ddefnyddiwyd, yn ogystal ag	

	ystod y data, meintiol ac ansoddol. Amlygodd y materion allweddol a gorffennodd gyda'r themâu sy'n dod i'r amlwg.	
3.3	Dilynwyd hyn gan drafodaeth. Y farn gychwynnol oedd bod y cynnwys yn dda, yn hanesyddol mae asesiadau wedi bod yn seiliedig ar anghenion yn hytrach nag asedau ac mae'r asesiad hwn yn lle da i adeiladu arno.	
3.4	Aeth YS drwy'r themâu gan amlygu'r canfyddiadau. Dylid anfon ymholiadau neu wybodaeth ychwanegol am ddata ymlaen yn uniongyrchol at NM (darperir y manylion cyswllt).	
3.5	<p>Y cam nesaf yw'r ymgynghoriad cyhoeddus a throdd y drafodaeth at y broses ymgynghori, yr amserlen a'r cwestiynau i'w gofyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r asesiad – a ydym wedi'i gael yn gywir? • Mae angen i'r cwestiynau ganolbwyntio barn pobl – cytuno/anghytuno â'r darlun presennol • Mae angen crynodeb ar gyfer pob pennod â'r negeseuon allweddol – awgrymodd ME y dylai pob sefydliad lenwi templed a chynnwys cwestiwn ar gyfer yr ymgynghoriad. Cam gweithredu: datblygu templed • Cysylltwyd â thîm ymgynghori ac ymgysylltu CBSP, dyrannwyd amser, maent yn aros am gwestiynau. Cam gweithredu: cwblhau'r fframwaith ymgynghori • Angen marchnata'r ymgynghoriad yn eang, aelodau i'w hyrwyddo yn eu sefydliadau • Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi rhagor o wybodaeth er mwyn cyfrannu at y Cynllun Llesiant 	<p>ME</p> <p>JJ</p>
4	Gweithdai Thematig BGC 2016 – Crynodeb ac Argymhellion	
4.1	Crynodeb wedi'i ddisbarthu'n flaenorol, nododd DM mai ei farn ef oedd yr argymhellion a chroesawodd farn yr aelodau am y ffordd ymlaen.	
4.2	<p>Pwyntiau 1 – 3 cytunodd pawb y dylai'r BGC gadw llygad ar y cynnydd, CBSP yn rhan o Fargen Ddinesig Caerdydd ac mae PABM yn rhan o Fargen Ddinesig Abertawe, felly mae gan y BGC bresenoldeb ar y ddwy gyda'r cyfle i roi adborth i'r BGC.</p> <p>Cam gweithredu: cylchredeg y newyddion diweddaraf am ARCH (Bargen Ddinesig Abertawe)</p>	AD
4.3	<p>Pwynt 4 Ydy'r prosiectau presennol dan y BGC sy'n canolbwyntio ar ardal benodol yn gweithio? Os nad ydynt, a fyddai modd dyrannu'r adnoddau rywle arall. Yn dilyn hyn, cafwyd trafodaeth ynghylch gwerthusiad mewnol neu gynnig y gwaith ar gomisiwn. Cytunodd pawb mai'r ffordd fwyaf cost-effeithiol i ddechrau oedd cynnig cyflwyniad i'r BGC. Cam gweithredu: trefnu cyflwyniadau</p>	Tîm cymorth
4.4	<p>Pwynt 5 Cefnogodd SP ac AD adolygiad o arolygiaeth neu lywodraeth y BGC o gynlluniau grant gwrthdlodi, gan ychwanegu y gallai fod yn bosibl i'r aelodau ddod ag arian cyfatebol ac ati. Cytunodd AF fod hyn yn gweddu i'r agenda, er mwyn osgoi dyblygu ac amlygu'r darlun mwy. Cafwyd trafodaeth ynghylch ansicrwydd y ffrydiau cyllido. Cytunodd pawb y dylai grŵp llai gyfarfod i archwilio ymhellach cyn gwybod yr holl fanylion. Cam gweithredu: cynnal adolygiad</p>	MM
4.5	Pwynt 6 Yn dilyn trafodaeth, cytunodd pawb nad mater i'r BGC oedd hyn. Fodd bynnag, bydd pawb yn rhannu arfer da.	

4.6	Pwynt 7 Cytunodd pawb y dylai'r BGC sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i drafod y cyfleoedd ar gyfer gwella sgiliau'r gweithlu presennol a phrentisiaethau. Cam gweithredu: SP a JJ i sefydlu grŵp.	JJ
4.7	Pwynt 8 Cytunodd pawb y dylai'r BGC adolygu'r CSP. Cam gweithredu: adolygu'r sefyllfa bresennol. Ychwanegodd StP fod angen i'r CSP ddibynnu ar y grŵp hwn ar gyfer arweiniad strategol ac adrodd yn ôl i'r BGC.	MM
4.8	Pwynt 9 Nododd ME fod y gorchwyl i wneud y gwaith hwn wedi'i ymddiried i CNC ac y bydd yn rhoi adborth am y cynnydd i'r BGC	
4.9	Pwynt 10 ac 11 Dilynodd trafodaeth ynghylch defnyddio arfer gorau a'i rannu â'r partneriaid. Byddai hyn yn effeithio ar nifer mawr o'r gweithwyr a'u teuluoedd. Nododd AD y byddai'r Athro Ceri Philips yn croesawu sgwrs ddilynol. Cam gweithredu: DM i gysylltu â'r Athro Ceri Philips, AD ac SHG i arwain.	DM AD ac SHG
5	Themâu Gweithdai'r Dyfodol	
5.1	Cyflwynwyd amlinelliad o'r thema plant: <ul style="list-style-type: none"> • ACE • 1000 o ddiwrnodau • Parthau Plant Gwirfoddolodd AF i arwain y gweithdy	
5.2	Cynigiodd SP Goleg Pen-y-bont fel y lleoliad.	
6	Unrhyw Fater Arall	
6.1	Gofynnodd ME beth oedd dyddiad cyfarfod nesaf y Panel Craffu. Cadarnhaodd JJ mai 9.02.17 ydyw er mwyn ystyried yr asesiad llesiant ac adroddiadau ar brosiectau GVV a LEAD.	
6.2	Nododd AD y bydd PABM yn craffu ar ei gweithgarwch BGC drwy ei phanel atebolrwydd.	
6.3	Cyflwynodd SP gyfleoedd NVQ a Learn Direct yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr a gaiff eu hyrwyddo drwy'r Fforwm Busnes a gwahoddodd aelodau â diddordeb i gysylltu ag ef yn uniongyrchol.	
6.4	Awgrymodd DM, yng ngoleuni mwy o weithgarwch, ailgynnull y grŵp a oedd yn edrych ar hunanladdiadau er mwyn bodloni'r heriau strategol ynghylch y cyfryngau a datblygu penderfyniadau tactegol, cyfrifol. Cytunodd y BGC. Cam gweithredu: ailgynnull y grŵp.	DM
7	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf	
7.1	27 Mawrth 2017, Coleg Pen-y-bont	